**Nodiadau Cyfarwyddyd**

**Ffurflen Gais ADFER MYFYRWYR**

I adfer i gofrestr myfyrwyr y Cyngor Optegol Cyffredinol mae angen i chi wneud y pethau canlynol:

1. Cyflwynwch y ffurflen electronig:
https://www.optical.org/en/Registration/Restoring_to_the_registers/students.cfm
2. Cyflwynwch y Ffurflen Adnabod ar gyfer Adfer Myfyrwyr a geir ar y dudalen we uchod drwy e-bost neu drwy'r post.
3. Talwch yr anfoneb a roddwn am eich ffi adfer.

**Os oes gennych gwestiynau**

| | |
|---|---|
| E-bost | registration@optical.org |
| Ysgrifennwch at 10 | Old Bailey, Llundain EC4M 7NG |
| Rhif ffôn | +44(0)20 7580 3898, dewis1 dydd Llun i ddydd Iau 09.00-17.00, dydd Gwener 09.00-16.45 |
| Gwefan | www.optical.org |

**Adran 1 – Manylion cyswllt**

Bydd eich enw llawn, eich tref gartref a'ch cyfeiriad ymarfer (os ydych wedi'u nodi) i'w gweld ar y gofrestr gyhoeddus ac efallai y byddant ar gael i drydydd partïon.

Mae angen i chi roi cyfeiriad e-bost gan mai dyma sut y byddwch yn cael cadarnhad o'ch cofrestriad a gohebiaeth bwysig arall gennym. Dyma hefyd sut y byddwch yn mewngofnodi i adran MyGOC y wefan.

O bryd i'w gilydd, rhaid i ni anfon gohebiaeth drwy'r post. Rhaid i chi ddewis ai cyfeiriad eich cartref neu'ch practis fydd ein cyfeiriad cofrestredig ar gyfer gohebu â chi. Dylai fod yn gyfeiriad dibynadwy fel y gall negeseuon pwysig eich cyrraedd yn ddi-oed.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad drwy ddefnyddio'r ardal MyGOC ar ein gwefan neu drwy ysgrifennu at registration@optical.org.Dylech hefyd roi gwybod i ni am unrhyw newid enw cyn gynted â phosibl. Gallwch wneud hyn drwy amgáu llungopi ardystiedig o'r ddogfen newid enw neu dystysgrif priodas.

Os ydych yn dechrau cyfnod o hyfforddiant galwedigaethol (y lleoliad cyn cofrestru) rhaid i chi ddweud wrthym pan fyddwch yn dechrau'r lleoliad neu os bydd eich amgylchiadau'n newid. Rhaid i chi roi manylion pob cyfeiriad ymarfer lle byddwch yn cael profiad ymarferol dan oruchwyliaeth. Os oes angen rhagor o le arnoch chi, anfonwch e-bost at registration@optical.org gyda'r manylion.

Yr enw rydych chi'n ei roi yw'r enw rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio gyda'ch darparwr addysg. Os yw'n wahanol i'r ddogfen adnabod a ddarperir gennych, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o ddogfennau.

**Adran 2 – Sefydliad addysgol lle rydych yn ymgymryd â hyfforddiant optegol**

Dewiswch y sefydliad addysg perthnasol a nodwch y mis a'r flwyddyn pan wnaethoch chi ailymuno â'ch hyfforddiant optegol.

Os nad yw eich sefydliad addysgol wedi'i nodi, llenwch y dewis 'arall'. Llenwch

wybodaeth hefyd ynghylch pryd y gwnaethoch roi'r gorau i hyfforddi. Os nad ydych

chi wedi rhoi'r gorau i hyfforddi nodwch y mis a'r flwyddyn bresennol.

**Adran 3 – Tynnu oddi ar y gofrestr**

Dylech roi adroddiad llawn o'r amgylchiadau a arweiniodd at eich tynnu oddi ar y gofrestr ac esboniad o pam eich bod yn awr yn dymuno cael eich adfer i'r gofrestr. Rhaid i chi dicio un o'r blychau; os ydych wedi ticio 'ydw', rhaid i chi lenwi ffurflen ar wahân sydd ar gael lle dylech ddarparu crynodeb o'r gweithgareddau yr ydych wedi bod yn ymgymryd â nhw pan nad ydych wedi cofrestru: https://www.optical.org/en/Registration/Restoring_to_the_registers/unregistered-activities-form.cfm

Rhowch fanylion unrhyw (i) asesiadau ac arholiadau yr ydych wedi eu sefyll a nodwch unrhyw ddyddiadau perthnasol a sefydliadau hyfforddi lle y cymerwyd y rhain a (ii) unrhyw hyfforddiant neu waith rheoledig yr ydych wedi ymgymryd ag ef tra nad ydych wedi cofrestru.
Nodwch hefyd enw a rhif GOC unrhyw un a oruchwyliodd eich hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn. Dylech nodi a ydych wedi datgan neu awgrymu i drydydd parti eich bod wedi cofrestru gyda'r GOC tra'ch bod heb gofrestru.

**Adran 4 – Addasrwydd i hyfforddi**

Yn yr adran hon, rhaid i chi ddatgan unrhyw faterion troseddol, materion disgyblu a/neu gyflyrau iechyd corfforol a meddyliol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ticio'r blwch YDW neu NAC YDW i nodi a ydych yn dymuno gwneud unrhyw ddatganiadau am faterion troseddol a disgyblu a/neu iechyd corfforol a meddyliol. Os ydych chi'n ticio YDW, rhaid i chi roi manylion yn y blychau a ddarperir. Mae ein gwefan yn rhoi rhagor o arweiniad yn yr adran sy'n dwyn y teitl 'Gwneud datganiadau'.

www.optical.org/en/Registration/Making_declarations/index.cfm

Dyma gyrff perthnasol y DU at ddibenion yr adran 'Materion disgyblu':

- Y Cyngor Optegol Cyffredinol
- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Sefydliadau gofal sylfaenol neu fyrddau iechyd

Sut bydd yr wybodaeth yn yr adran hon yn cael ei defnyddio?
Ni fydd y data a ddarperir yn yr adran hon yn cael ei gyhoeddi ar y gofrestr, bydd yn cael ei gadw'n ddiogel ac ni fydd yn hirach na sydd angen.

Gall y tîm cofrestru gysylltu â chi i ofyn am ragor o fanylion am eich datganiad. Bydd methu ymateb i gais am wybodaeth yn peri oedi gyda'ch cais i gofrestru.

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth hon i'n tîm Addasrwydd i Ymarfer i'w harchwilio. Gellir trosglwyddo datganiadau ffug neu fethiant i wneud datganiadau perthnasol i'n tîm Addasrwydd i Ymarfer.

**Adran 5 – Datganiad o wybodaeth**

Darllenwch a thicio'r datganiadau a llofnodi a dyddio'r ffurflen yn y lle gwag a ddarperir.

**Datganiad Amddiffyn Data**

Bydd yr wybodaeth a rowch i ni, y GOC (fel rheolydd data), yn cael ei phrosesu a'i defnyddio yn unol â'n pwrpas statudol o dan y Ddeddf Optegwyr er mwyn cynnal ein Cofrestr a sicrhau bod ein cofrestrwyr yn addas i ymarfer. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data, gweler ein datganiad preifatrwydd.

**Pam mae angen yr wybodaeth hon arnom?**
Mae angen yr wybodaeth rydym yn ei chasglu ar y ffurflen hon er mwyn i ni wneud gwiriadau perthnasol a rhoi eich enw ar y Gofrestr.

**Beth ydym ni'n ei wneud â'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi?**
Ar ôl ei chael, bydd yr wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel gan ein tîm Cofrestru a bydd eich cais adfer yn cael ei brosesu. Bydd yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'n systemau electronig a'i chadw am ddim mwy na'r angen at ein dibenion.

**Pa wybodaeth a gyhoeddir?**

Mae gennym ddyletswydd i gyhoeddi ein Cofrestr mewn fformat hygyrch. Ar gais, efallai y byddwn yn darparu ein cofrestr gyhoeddus i gyrff eraill.

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chyhoeddi ar ein Cofrestr:

Ar gyfer Unigolion:

Enw llawn, Rhif GOC, statws Cofrestru, Rhyw, Cofrestredig ers, Dyddiad cofrestru diweddaraf, arbenigeddau Cofrestredig, Tref (dyma dref y Cyfeiriad Cyswllt, a nodir yn Adran 1), Cymwysterau, penderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer, Cyfeiriadau Ymarfer.

Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei chyhoeddi mewn fformat lle gellir adnabod unigolion. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.